

Adroddiad Grŵp Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Paratowyd gan: Anwen Thomas

Nod y Cynllun Llesiant	Nod pob prosiect sy'n seiliedig ar lefydd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd y fframwaith sy'n seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu gwaith integreiddio a bydd yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chyd-nerthedd cymunedau ac unigolion.
Ein Gwerthoedd	Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldebau, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl
Enw'r Grŵp	Gwella Llesiant Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi
Y Cadeirydd	Hazel Lloyd-Lubran , Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

Aelodaeth y Grŵp (Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)

Cyngor Sir Ceredigion	Bethan James , Caitlin Theodorou, Carwyn Young, Carys Owens, Cathryn Morgan , Cerys Purches-Phillips , Connor Cook, Elinor Ashworth-Chandler, Eirlys Lloyd, Y Cynghorydd Elaine Evans , Emily Evans, Erin McCudden, Mari Hopkins, Martin Gillard, Melanie Walters, Non Davies, Rhiannon John, Rob Starr , Sarah Evans, Sarah Griffiths, Dr Sarah Groves Phillips <u>Tîm Partneriaethau:</u> Anwen Thomas , Lynne Walters , Neris Davies, Sara Dafydd, Steffan Gruffudd, Teleri Elias, Timothy Bray, Liam Wheeler-Jones	Cymdeithas Tai Wales and West	Rhiannon Ling
		Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Conrad Hancock, Geinor Jones, Jackson Reynolds, Janet Knill, Rhian Rees , Terri-Ann Patrick , Trina Nealon, Vicki Howell-Williams

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)	Chesca Ross	Swyddfa Ben Lake	Carys Lloyd
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Steven Davies	Cyfoeth Naturiol Cymru	Aled Davies
Barcud Ceredigion	Catrin Owen, Sue Thomas	Mentera	Ann Owen
CAB Ceredigion	Glynis Llewelyn, Juliet Morris	Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru	Mandy Williams, Mererid Lewis
Area 43	Becca Head	Age Cymru	Lynne Hughes-Davies
Dwr Cymru	Ellie Lewis, Sion Griffiths, Rebecca Jones		

CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP CYFLAWNI

Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Cyflawni: 15.01.2026

19.1 Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.

Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: Geinor Jones, Sue Thomas, Elinor Ashworth-Chandler, Carys Owens.

19.2 Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (08.10.25)

Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8fed Hydref 2025 a chytunwyd eu bod yn gywir. Hefyd, cytunwyd bod y camau a gofnodwyd wedi'u cwblhau neu eu bod wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod hwn.

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r pynciau allweddol a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol:

- Mae Cronfa Effaith Balchder a Lle wedi'i hariannu'n gyfan gwbl gan gyfalaf, gyda dyddiad cau o Fawrth 2027 ar gyfer cwblhau pob prosiect. Bydd y Gronfa Twf Lleol yn dechrau ar 1 Ebrill a disgwylir iddi hefyd fod yn seiliedig ar gyfalaf yn bennaf, er nad oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu eto ynghylch sut olwg fydd ar y prosiectau na'r trefniadau ariannu. Rhaid cyflwyno pob syniad arfaethedig

i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo nawr, a all arwain at oedi. Nododd HLL y gallai fod prosiectau cenedlaethol Cymru gyfan ychwanegol yn cael eu cyflwyno trwy'r rhaglenni hyn, ac efallai y bydd angen dilyn y rhain i sicrhau bod prosiectau Ceredigion hefyd yn cael blaenoriaeth.

- Cafwyd trafodaeth fer am Ganolfan Llesiant Aberteifi, a nodwyd bod gwaith dichonoldeb yn mynd rhagddo drwy'r Gronfa Ffyniant a Rennir. Cadarnhaodd LW, yn unol â'r diweddariad diweddaraf a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan Carwyn Young, fod y briff yn cael ei gwblhau, a bydd y gwaith yn symud ymlaen i ymgynghori ac ymgysylltu. Gofynnodd y grŵp am gael gwybod wrth i ddatblygiadau godi.

- Rhoddodd CM ddiweddariad ar gais y Cynghorydd Elaine Evans ynghylch a ellir gwneud Fy Nghyfrif yn seiliedig ar ap. Cadarnhaodd IT nad yw hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Eu blaenoriaeth bresennol yw sicrhau bod y system Priffyrdd ac Amgylcheddol newydd a'r system Diogelu'r Cyhoedd yn integreiddio'n effeithiol â Fy Nghyfrif. Awgrymodd HLL y dylid datblygu systemau newydd fel apiau yn gyntaf, gan fod y rhan fwyaf o bobl bellach yn cyrchu gwybodaeth ar eu ffonau. Nododd EE fod ymgysylltiad ymgynghori yn isel a byddai ap yn debygol o gynyddu cyfranogiad. Ychwanegodd HLL fod Llywodraeth Cymru yn archwilio cyfeiriadur Cymru gyfan, a chytunodd y grŵp y dylid ei ddatblygu fel un sy'n seiliedig ar ap a'i deilwra i leoliadau defnyddwyr.

19.3 Eitem sefydlog: Diweddariad am gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (01.12.25)

Adroddodd HLL ar drafodaethau uno rhanbarthol, gan gadarnhau y bydd tîm cymorth y BGC yn archwilio beth fyddai cydweithio agosach â BGC Sir Gaerfyrddin yn ei olygu a bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i hyn fynd yn ei flaen. Yn y lle cyntaf, mae BGC Sir Benfro wedi penderfynu parhau i weithredu fel BGC ar wahân, fodd bynnag, cedwir y cyfle i hyn newid yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae diddordeb mewn cynnwys Sir Benfro mewn trafodaethau yn y dyfodol, o ystyried agosrwydd daearyddol a'r cyfleoedd a gyflwynir gan fentrau trawsffiniol. Pwynt allweddol a godwyd gan y BGC yw'r angen i gynnal presenoldeb cryf yng Ngheredigion wrth weithio'n rhanbarthol, gan gynnwys bod yn fwy gweladwy mewn cymunedau lleol trwy ddigwyddiadau a sesiynau galw heibio. Nododd y grŵp fod yn rhaid ystyried ffordd o weithio Ceredigion ochr yn ochr ag unrhyw ddatblygiadau rhanbarthol.

19.4 Cronfa Gymunedol Aberteifi

Rhoddodd Sion Griffiths (SG), Ellie Lewis (EL) a Rebecca Jones (RJ) gyflwyniad i'r grŵp ynghylch Cronfa Gymunedol Aberteifi Dŵr Cymru.

Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o fuddsoddiad sylweddol Dŵr Cymru yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi, gan amlinellu prosiect gwerth £20 miliwn i ddisodli'r broses drin bresennol yn llwyr. Nod yr uwchraddio yw gwella gallu'r safle i reoli dŵr hallt sy'n dod i mewn o'r afon lanwol, cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion llif a lleihau nifer y gollyngiadau. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun ym mis Ionawr 2025, gyda disgwyl i brosesau trin newydd fod ar waith erbyn diwedd 2026 a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau'n llawn ym mis Ebrill 2027.

Ochr yn ochr â'r gwelliannau seilwaith, cyflwynodd y cyflwyniad y rhaglen Cymunedau Gwydn i Ddŵr, dull sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac sy'n seiliedig ar leoedd, a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol presenoldeb Dŵr Cymru mewn cymunedau lleol. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar ymgysylltu'n ddyfnach â thrigolion, gwrandao ar anghenion lleol, a gweithio ar draws gwasanaethau mewnol i ddatblygu camau gweithredu sy'n fuddiol i'r gymuned y tu hwnt i'r gwaith adeiladu. Mae'r dull yn pwysleisio cydweithio â phartneriaid lleol dibynadwy, cyd-gynhyrchu, dulliau arloesol a chwalu seilos sefydliadol.

Tynnodd SG sylw at bartneriaeth Dŵr Cymru gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'r dull cydweithredol hwn yn defnyddio mewnwelediad a gwybodaeth leol y BGC i gefnogi gwneud penderfyniadau teg a thryloyw. Yn ogystal, amlinellodd y cyflwyniad y Gronfa Gymunedol gwerth £20,000 a grëwyd i gefnogi prosiectau lleol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, lles, iechyd, addysg a chydnerthedd. Mae grantiau rhwng £250 a £5,000 ar gael. Mae'r broses ymgeisio yn cynnwys cyflwyno trwy wefan Dŵr Cymru, adolygu gan banel ar y cyd, a chwblhau prosiectau a ariennir o fewn deuddeg mis. Rhannwyd enghraifft o gefnogaeth flaenorol trwy brosiect gardd ysgol Gardd Enfys yn Aberteifi, a dderbyniodd £5,000 i helpu disgyblion i ymgysylltu â natur a datblygu gwerthfawrogiad amgylcheddol hirdymor.

Mae'r broses ymgeisio am grant cronfa gymunedol yn cau ddiwedd mis Chwefror; bydd panel ar y cyd yn cael ei sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr y BGC i ystyried y ceisiadau a dderbynnir. Crëwyd cyfeiriad e-bost pwrpasol i ateb ymholiadau sy'n ymwneud â'r grant Cardigancommunityfund@dwrcymru.com

CAM GWEITHREDU: RJ i ddarparu adnoddau hyrwyddo i'r grŵp i'w defnyddio i hyrwyddo'r gronfa gymunedol o fewn cymuned Aberteifi.

CAM GWEITHREDU: Aelodau'r grŵp i hysbysu HLL os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn aelod o banel ar broses grant y gronfa gymunedol.

Nododd HLL, pan ddaw syniadau cryf drwy'r gymuned, y gall y panel hefyd archwilio cyfleoedd ychwanegol i'w cefnogi. Drwy gydweithio, mae potensial i ddenu adnoddau pellach i ehangu'r effaith gyffredinol. Nododd LW fod y wybodaeth a ddarparwyd y bore yma yn cyd-fynd yn dda â chyfarfod y BGC a drefnwyd ar gyfer 9 Chwefror. Tynnodd sylw at y ffaith, drwy'r Cadeirydd, bod cyfle gan y grŵp hwn i roi adborth i'r bwrdd llawn cyn unrhyw gyfarfod panel ar brosiectau penodol.

Gofynnodd CM a yw'r gwaith sy'n digwydd yn Aberteifi yn gysylltiedig â budd cymunedol sy'n deillio o'r prosiect trin dŵr gwastraff, ac a fydd y gwaith hwn yn dod i ben unwaith y bydd y prosiect yn dod i ben. Esboniodd SG, er bod y ffocws dwys fel arfer yn para tua 18 mis ac yn dod i ben, fod llawer o'r gwasanaethau a gyflwynwyd trwy'r prosiect ar gael ar draws ardaloedd gweithredol ehangach. Ychwanegodd fod gweithgaredd parhaus yn yr ardal yn golygu y bydd RJ yn parhau i fod yn rhan o'r gwaith am beth amser, a bod y Gronfa Gymunedol yn darparu ffordd ychwanegol o sicrhau etifeddiaeth barhaol o'u presenoldeb yn Aberteifi.

Nododd HLL ei bod hefyd wedi derbyn gwybodaeth gan Ddŵr Cymru am hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr proffesiynol i helpu unigolion i leihau biliau a rheoli costau. Awgrymodd y gellid codi hyn yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp Tlodi.

CAM GWEITHREDU: HLL i godi hyfforddiant Dŵr Cymru i weithwyr proffesiynol yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp Tlodi.

Nodwyd bod EL wedi darparu gwybodaeth ynghylch elfennau'r gwaith sy'n gysylltiedig â ffosfforws. O dan y BGC, mae gan y Grŵp Hinsawdd a Natur gysylltiadau â'r Bartneriaeth Natur Leol, ac efallai y bydd lle iddynt fod yn rhan o'r agwedd hon o'r prosiect. Amlygwyd bod cryfhau'r cysylltiadau hyn yn bwysig i wneud y mwyaf o'r effaith gyfunol. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn canolbwyntio ar yr asesiad risg newid hinsawdd mewn cydweithrediad â Sir Gaerfyrddin, gan gyflwyno cyfleoedd ar gyfer gwaith trawsffiniol. Awgrymwyd ychwanegu eu henwau at restr y partneriaid ar gyfer y grŵp hwn, yn amodol ar gytundeb.

CAM GWEITHREDU: LW i wahodd EL i fynychu'r grŵp Newid Hinsawdd a Natur.

19.5 Ymgynghoriadau, Digwyddiadau ac Ymgysylltu

Rhoddodd aelodau'r grŵp y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau, digwyddiadau ac ymgysylltu:

- Nododd CM fod gwaith ar y gweill i gasglu barn pobl ar ddiwylliant yng Ngheredigion i helpu i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant ar gyfer CSC. Mae'r ymgysylltu hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol, a'r cam nesaf fydd drafftio'r strategaeth cyn symud ymlaen i ymgynghori. Gofynnodd Teri Ann Patrick (TAP) a allai fod cyfle i gysylltu'r Strategaeth Ddiwylliant â'r eisteddfod a gynhelir yn Aberteifi.

- Nododd CM fod Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn gwahodd pobl ifanc a phartneriaid i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu i helpu i lunio'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2027–2032. Mae'r ymgysylltu'n rhedeg o fis Ionawr i fis Mawrth 2026. Bydd adborth yn llywio blaenoriaethau a darpariaeth gwaith ieuenctid yn y dyfodol ledled y sir. [Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn lansio ymgysylltiad i lunio strategaeth newydd - Cyngor Sir Ceredigion](#)

- Mae fîm CM yn datblygu cynllun ymgysylltu, a fydd hefyd yn cael ei rannu gyda chydweithwyr rhanbarthol i gael eu mewnbwn fel rhan o'r paratodau ar gyfer uno'r BGC a chwblhau'r asesiad lles lleol. Nod y cynllun yw cynnwys sesiynau galw heibio, mynychu digwyddiadau cymunedol, ac arolwg ar-lein i gasglu adborth.

- Tynnodd Rhian Rees (RR) sylw at bwysigrwydd plethu'r naratif a'r iaith o amgylch y Model Cymdeithasol ar gyfer lechyd i'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu sy'n ymwneud â'r Asesiad o Les Lleol. Mae cydweithwyr o fewn y Bwrdd lechyd ar gael ac yn awyddus i helpu a chefnogi'r gwaith hwn wrth i'r amserlen ar gyfer y darn hanfodol hwn o waith gael ei nodi a'i chytuno gan y BGC.

CAM GWEITHREDU: Tîm Cymorth Partneriaeth a Rob Starr i gysylltu ag RR wrth ddatblygu'r Asesiad Lles.

- Nododd Bethan James (BJ) ym mis Hydref 2025, y cynhaliwyd ymgynghoriad i gasglu adborth ar y 'Canllaw ar gyfer Busnesau sy'n Gyfeillgar i Oedran ac sy'n Gyfeillgar i Ddementia yng Ngheredigion 2026', a helpodd i lunio'r fersiwn derfynol. Lanswyd y canllaw yn Fforwm Cyfeillgar i Oedran Ceredigion ym mis Tachwedd 2025, lle'r oedd dementia yn ffocws allweddol. Ar ôl y fforwm, cwblhawyd y canllaw a'i anfon i'w argraffu, gyda'r dosbarthiad i fod i ddechrau ym mis Chwefror 2026, gan ddechrau gyda pheilot yn Nhregaron cyn ei gyflwyno i drefi eraill.

- Mae digwyddiad lechyd yn yr Hwb wedi'i drefnu i gael ei gynnal ar 21/01/2026, mae Elinor Ashworth-Chandler (EAC) yn cydweithio â Rob Allen (GIG) a Jayne (Cyfle Cymru) i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau iechyd a lles pellach: Llanbedr Pont Steffan – 18 Chwefror 2026, Borth – 3 Mawrth 2026, Tregaron – 10 Ebrill 2026.

- Mae EAC yn cynnal ymgysylltiad ledled y sir i gasglu barn ar sut y gall Ceredigion ddod yn fwy cyfeillgar i oedran. Bydd yr adborth hwn yn llywio Cynllun Gweithredu Cyfeillgar i Oedran Ceredigion ar gyfer 2026–2029, y disgwylir iddo fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf cyn symud trwy broses lywodraethu'r Cyngor i'w gymeradwyo. [Ceredigion Oed-Gyfeillgar - Cyngor Sir Ceredigion](#)

- Mae theatr byd bach yn cynnal Hyfforddiant Cynhwysiant a Gwrth-Hiliaeth i arweinwyr cymunedol ledled Ceredigion, bydd yr hyfforddiant yn digwydd yng Nghlwb Bowlio Aberteifi ar 26/1/26, 5pm-7pm.

- Tynnodd RR sylw at y rhaglen atgyfeirio 'Arts On' ac mae'n gobeithio ymgysylltu â meddygfa Aberteifi i archwilio rhedeg rhaglen yn lleol. Os bydd yn llwyddiannus, disgwylir iddi ddechrau ym mis Mai.

- Nododd RR fod mynychu digwyddiadau yn ddefnyddiol yng nghyd-destun adnewyddu strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru lachach. Roedd pedwar o'r un ar ddeg cwestiwn a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y model i gasglu barn pobl ar yr hyn sy'n eu helpu i aros yn iach, a bydd angen adlewyrchu'r egwyddorion hyn yn y strategaeth newydd. Mae'r Strategaeth Gofal Cymunedol a Sylfaenol hefyd yn cael ei datblygu, gyda'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd a lles yn cael ei ymgorffori drwyddi draw.

19.6 Diweddariadau Partneriaid

- Mae Carys Owens yn parhau i weithio gyda Sue Lewis (Planed) a HWB Aberteifi, ynghylch darparu gwasanaeth micro-fenter ar y safle, gan nad oes gwasanaeth cymorth yn ardal Aberteifi ar hyn o bryd. Mae 2 ofalwr micro yn eu lle nawr, ac mae datblygiadau'n mynd yn dda, gyda chyllid wedi'i sicrhau trwy HWB. Mae gwaith hefyd ar y gweill i sicrhau bod y lleoliad yn addas ar gyfer pobl â dementia. Bydd yr amserlen yn dibynnu ar adnewyddu'r adeilad, gyda dechrau'r gwanwyn fel targed posibl. Cynigiodd HLL y dylai cynrychiolydd HWB fynychu cyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp.

CAM GWEITHREDU: Tîm Cymorth Partneriaethau i drefnu diweddariad Tabernacl HWB yn y cyfarfod nesaf.

- Tynnodd HLL sylw at brosiect dan arweiniad CAVO yn gweithio gyda chysylltwyr cymunedol i annog cymunedau i gynnal eu digwyddiadau ymgysylltu eu hunain, gyda chefnogaeth symiau bach o gyllid. Nod hyn yw cynyddu cyfranogiad lleol a chasglu adborth ehangach i lywio'r asesiad a'r cynllun lles lleol.
- Nododd LW fod gan Perthyn grantiau ar gael i helpu cymunedau i gychwyn neu dyfu mentrau siarad Cymraeg. Gall busnesau a grwpiau cymunedol wneud cais, a gall unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â nhw yn perthyn@cwmpas.coop
- Nododd EE fod yr Eglwys Bywyd Newydd wedi cychwyn clybiau plant dydd Sadwrn am ddim i blant 7–11 oed, gan gynnig digon o le a gweithgareddau. Ar 17/1/26, byddant hefyd yn agor ystafell synhwyrdd newydd i blant ag AAA.
- Adroddodd TAP eu bod yn gweithio gyda meddygon teulu mewn gofal sylfaenol, gan ddefnyddio cyllid o'r rhaglen Trawsnewid Gofal Brys ac Achosion Brys i gynyddu apwyntiadau gofal cymunedol brys hyd at 30 y dydd ar draws y sir.
- Nododd y CM y bydd Emily Evans yn cynrychioli'r tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

19.7 Unrhyw fusnes arall

Nid oedd unrhyw fusnes arall.

19.8 Dyddiad y cyfarfod nesaf: I'w gadarnhau.
--

Crynodeb o'r Camau Gweithredu

1. RJ i ddarparu adnoddau hyrwyddo i'r grŵp i'w defnyddio i hyrwyddo'r gronfa gymunedol o fewn cymuned Aberteifi.
--

2. Aelodau'r grŵp i hysbysu HLL os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn aelod o banel ar broses grant y gronfa gymunedol.

3. HLL i godi hyfforddiant Dŵr Cymru i weithwyr proffesiynol yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp tlodi.
--

4. LW i wahodd EL i fynychu'r grŵp Newid Hinsawdd a Natur.

5. Tîm Cymorth Partneriaethau i drefnu diweddariad Tabernacl HWB yn y cyfarfod nesaf.
--